Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Adroddiad Blynyddol (Hydref 2015 – Hydref 2016)

Rhif Elusen Gofrestredig: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Strwythur, Trefn Lywodraethol a Rheolaeth:

Yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r Gymdeithas:

(*penodwyd ac ailbenodwyd mewn CCB ym mis Hydref 2015*)

Gerallt W. Hughes – **Cadeirydd**; Beryl H Griffiths – **Ysgrifennydd Cyffredinol**; Rhian Parry – **Trefnydd Cyfarfodydd**; Rheinallt G Llwyd – **Trysorydd**; A. Lloyd Hughes – **Golygydd**; Geraint Lloyd Jones – **Ysgrifennydd Aelodaeth** (*ond oherwydd amgylchiadau arhosodd y cyn-Ysgrifennydd, Pamela Michael, yn y swydd am eleni*).

Cyllid: [Rheinallt G Llwyd]

Fe welir o'r Cyfrifon am 2015-16 fod gwarged o £496.98 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er gwaetha'r ffaith inni wario llawer mwy yn ystod y flwyddyn ar greu gwefan newydd a phrynu gwahanol offer i'r Gymdeithas. Llwyddwyd hefyd i gasglu swm sylweddol o ôl-ddyledion gan danysgrifwyr a bu hyn o fudd mawr inni'n ariannol yn ogystal â'r ffaith i nifer o ôl-rifynnau o *Gylchgrawn* y Gymdeithas gael eu gwerthu. Mae'r gostyngiad mewn llogau ar gyfrifon adnau, serch hynny, yn broblem ddyrys.

Aelodaeth: 1 Medi 2015 – 31 Awst 2016: [Pamela Michael]

Mae gan y Gymdeithas gyfanswm o 218 aelod, sy'n cynnwys 4 aelod am oes, 36 aelod teuluol a 177 o aelodau unigol. Yn ychwanegol mae 16 o sefydliadau yn aelodau gan gynnwys dwy gymdeithas hanes lleol a llyfrgelloedd academaidd amrywiol. Bu wyth aelod farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae pedwar wedi dwyn eu haelodaeth i ben. Rydym wedi cael dau aelod newydd. Hefyd rydym wedi tynnu enwau nifer o aelodau nad ydynt wedi ymateb i ymdrechion parhaus i gysylltu â nhw oddi ar y rhestr.

Gweithgareddau: [Rhian Parry]

Dechreuwyd rhaglen y flwyddyn yn Llanuwchllyn gyda darlith ddifyr iawn gan Dr Huw Owen, 'Rhai o Gapeli Meirionnydd'. Trafodwyd adeiladwaith y capeli a'r ffurfiau pensaernïol amrywiol. Dilynwyd ym Mai gyda phrynhawn yn Nhan-y-bwlch lle cafwyd blas o'n prosiect loteri, 'Cofio' a rhai o effeithiau cymdeithasol a hanesyddol y Rhyfel Mawr ar Feirionnydd. Cafwyd darluniau byw drwy lygaid trigolion unigol mewn nifer o gyflwyniadau teimladwy gan aelodau. Clywsom hefyd gan aelod newydd, Menna Jones, am ei hymchwil newydd i ysbytai cynnar y sir a thu hwnt. Cafwyd un gweithdy eleni yn Archifdy Dolgellau a diolchwn i'r staff am eu cydweithrediad parod. Bu ymweliad â Thyn-y-Coed, Arthog drwy wahoddiad caredig Gerallt a Dorothy Hughes a chafwyd golwg ar bensaernïaeth arbennig iawn y tŷ cyn mwynhau te blasus. Mae ein diolchiadau twymgalon yn ddyledus i deulu croesawgar Tyn-y-Coed. Ym Medi byddwn yn edrych ymlaen at glywed Dr Gareth Huws a'i gyflwyniad bywiog am fywyd Morgan Lloyd, Cefngellgwm yn ei gynefin yn Nhrawsfynydd. Bydd ein cyfarfod blynyddol yn Llanelltud a chroesawn Dr Dafydd Gwyn atom i ddarlithio ar Archaeoleg y Diwydiant Llechi ym Meirionnydd. Llongyfarchwn ef yn fawr ar ennill gwobr arbennig iawn, sef llyfr archaeoleg gorau'r flwyddyn yn y Deyrnas Unedig am ei lyfr, 'Llechi Cymru-Welsh Slate'. Edrychwn ymlaen at ei ddarlith. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i aelodau am eu cefnogaeth i'r cyfarfodydd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dymunaf y gorau i'm holynydd gan wybod y caiff yr un gefnogaeth.

***Y Cylchgrawn*:** [A. Lloyd Hughes]

Bydd *Cylchgrawn* eleni (Cyf. XVII, Rhan III) yn cael ei ddosbarthu i'r aelodaeth yn ystod Medi neu Hydref. Bydd y rhifyn tua 128 tudalen o faint, yn cynnwys: 6 erthygl (2 yn Gymraeg a 4 yn Saesneg), 'Gweithrediadau'r Gymdeithas, 2015' a 9 o adolygiadau. Cynhwysir 13 o luniau du a gwyn. Mae un erthygl mewn llaw yn barod ar gyfer rhifyn y flwyddyn nesaf.

Y Wefan:

Mae'r wefan yn dal yn weithredol gan greu diddordeb yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac yn fodd i werthu'r Cylchgrawn. Mae i'w gweld yn: www.hanes-meirionnydd.cymru .

Datganiad:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol uchod.

Llofnodwyd ar eu rhan gan Gadeirydd y Gymdeithas,

_____

Gerallt W. Hughes

Dyddiad: _____

Merioneth Historical and Record Society

Annual Report (October 2015 – October 2016)

Registered Charity No: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Structure, Governance and Management:

The Trustees who manage the Society:

(*appointed and re-appointed at an AGM in October 2015*)

Gerallt W. Hughes – **Chairman**; Beryl H Griffiths – **General Secretary**; Rhian Parry – **Meetings Organiser**; Rheinallt G Llwyd – **Treasurer**; A. Lloyd Hughes – **Editor**; Geraint Lloyd Jones – **Membership Secretary** (*but due to circumstances Pamela Michael agreed to remain in post for the year*).

Finance: [Rheinallt Llwyd]

As the Accounts for 2015-16 illustrate there was a surplus of £496.98 at the end of the financial year despite the fact that we spent substantial sums during the year on creating a new website and purchasing various equipment for the Society. A substantial sum of arrears was also collected from subscribers and the sale of numerous back issues of the Society's Journal provided added income which was very helpful. The decrease in interests on deposit accounts is, however, of considerable concern for the Society.

Membership 1 Sept. 2015 – 31 Aug. 2016: [Pamela Michael]

The society has a total of 218 members, comprising 4 life members, 36 family members and 177 single members. In addition there are 16 institutional members including two local history societies and various academic libraries. Eight members have died during the past year and four have resigned. We gained two new members. Also we removed from the list a number of members who had not responded to repeated efforts to contact them.

Activities: [Rhian Parry]

The year opened at Llanuwchllyn with a fascinating lecture by Dr Huw Owen, on some of Merioneth's chapels. The structure and architectural features of the chapels were discussed. In May we met at Tan-y-bwlch where we brought the Lottery project to a close. A number of members gave emotional and revealing insights into the war from the perspective of the people of Merioneth at the time. We also heard from a new member, Menna Jones, about her research into the early history of hospitals in the county. One workshop was held at the Dolgellau Record Office and we thank the staff for their support. Through the kind invitation of Gerallt and Dorothy Hughes we visited Tyn-y-Coed, Arthog where we looked at the unique architechture of the house and enjoyed refreshments. We owe our appreciation to the Tyn-y-Coed family for their welcome. In September we will hear Dr Gareth Huws lecturing on the life of Morgan Lloyd, Cefngellgwm, in the area where he was brought up. Our annual general meeting will be held at Llanelltud where we welcome Dr Dafydd Gwyn to lecture on the Archaeology of the Slate Industry in Merioneth. We congratulate him on his recent success in gaining the award for the best archaeolgy book of the year in the UK, 'Llechi Cymru-Welsh Slate'. I would like to take this opportunity to thank the members for their support in meetings over the last three years. I wish my successor the best, knowing that he or she will be supported in the same manner.

***The Journal*:** [A. Lloyd Hughes]

This year's *Journal* (Vol. XVII, Part III) will be distributed to members during September or October. It will contain approximately 128 pages, including: 6 articles (2 in Welsh and 4 in English), 'The Society's Proceedings, 2015' and 9 reviews. A total of 13 black and white photographs will be included. One article has been received for next year's issue.

The Website:

The website is still active creating an interest in the Society's activities and has been valuable in promoting sales of the Journal. It can be seen at

www.merioneth-history.wales.

Declaration:

The Trustees approve the above Annual Report.

Signed on their behalf by the Chairman of the Society,

_____

Gerallt W. Hughes

Date: _____